



**Cyfoeth  
Naturiol**  
Cymru  
**Natural  
Resources**  
Wales

# Adroddiad Perfformiad Blynyddol ar gyfer Dŵr Cymru Welsh Water 2018

Wedi ei baratoi gan y tîm Polisi Dŵr a Gweithredu Cyfarwyddbau,  
Cyfoeth Naturiol Cymru

Fersiwn 2

## Cynnwys

Rhif yr adran	Adran	Rhif/au tudalen
1	<b>Cyflwyniad</b>	3
2	<b>Prif negeseuon ar berfformiad</b>	3
3	<b>Methodoleg</b> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Y fethodoleg asesu perfformiad a ddefnyddiwyd gennym</li> <li>• Adrodd yn y dyfodol</li> </ul>	4
4	<b>Crynodeb o Asesiad Perfformiad Amgylcheddol 2018</b> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Perfformiad cyffredinol yr Asesiad Perfformiad Amgylcheddol</li> <li>• Crynodeb o berfformiad Asesiad Perfformiad Amgylcheddol Dŵr Cymru 2011–18</li> </ul>	5-7
5	<b>Digwyddiadau llygredd</b> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Metrig 1 yr Asesiad Perfformiad Amgylcheddol: Digwyddiadau llygredd (carthffosiaeth)</li> <li>• Metrig 2 yr Asesiad Perfformiad Amgylcheddol: Digwyddiadau llygredd difrifol (carthffosiaeth)</li> </ul>	8-10
6	<b>Cydymffurfio â'r drwydded gollwng dŵr</b> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Metrig 3 yr Asesiad Perfformiad Amgylcheddol: Cydymffurfio â'r drwydded ollwng (gweithfeydd trin carthion a gweithfeydd trin dŵr)</li> <li>• Llif</li> </ul>	11-13
7	<b>Digwyddiadau hunan-adrodd</b> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Metrig 4 yr Asesiad Perfformiad Amgylcheddol: Hunan-adrodd am ddigwyddiadau llygredd</li> </ul>	14
8	<b>Adnoddau dŵr</b> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Cydymffurfio â'r drwydded adnoddau dŵr</li> <li>• Metrig 6 yr Asesiad Perfformiad Amgylcheddol: Mynegai diogelwch cyflenwad</li> <li>• Cynlluniau sychder a chynlluniau rheoli adnoddau dŵr</li> <li>• Gollyngiadau a defnydd o ddŵr</li> </ul>	15-16
9	<b>Gwaith rheoliadol arall</b> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Metrig 5 yr Asesiad Perfformiad Amgylcheddol: Cyflawni Cynllun Rheoli Asedau'r Rhaglen Amgylchedd Genedlaethol</li> <li>• Gorfodi</li> <li>• Defnyddio a chael gwared ar slwtsh</li> <li>• Cronfeydd dŵr</li> <li>• Rheoli perygl llifogydd</li> </ul>	17-18
10	<b>Disgwyliadau perfformiad ar gyfer 2019</b>	18

# 1. Cyflwyniad

Diben Cyfoeth Naturiol Cymru yw ceisio rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy yn ein holl waith. Mae hyn yn golygu edrych ar ôl yr aer, tir, dŵr, bywyd gwylt, planhigion a phridd i wella llesiant Cymru a chynnig dyfodol gwell i bawb.

Rydym yn monitro gweithgareddau cwmnïau dŵr er mwyn lleihau'r effaith y mae eu hasedau a'u gweithgareddau yn ei chael ar yr amgylchedd. Rydym yn gwneud hyn drwy wirio eu perfformiad amgylcheddol drwy gydol y flwyddyn mewn meysydd fel lleihau digwyddiadau llygredd, cydymffurfio â thrwyddedau a chyflawni cynlluniau gwella amgylcheddol. Rydym wedyn yn cyhoeddi asesiad blynyddol o'u perfformiad.

Rydym ni, y rheoleiddiwr amgylcheddol, yn asesu perfformiad cwmnïau dŵr a charthffosiaeth sy'n gweithredu yng Nghymru er mwyn cyflwyno darlun o sut mae cwmnïau yn gwneud cynnydd yn erbyn amrediad o dargedau mesuradwy (metrigau). Mae'r adroddiad hwn yn canolbwyntio ar berfformiad amgylcheddol Dŵr Cymru Welsh Water<sup>1</sup> ("Dŵr Cymru") yn ystod 2018.

Mae rhan o ardal weithredu Dŵr Cymru yn Lloegr; Asiantaeth yr Amgylchedd sy'n rheoleiddio gweithrediadau yn Lloegr ac maen nhw wedi cyfrannu at y broses asesu perfformiad. Rydym hefyd yn asesu perfformiad Hafren Dyfrdwy, y gallwch ei weld ar ein [gwefan](#).

## 2. Prif negeseuon ar berfformiad

- Gwellodd sgôr sêr cwmni gyffredinol Dŵr Cymru o ddwy seren i dair seren yn 2018, gyda tair fetrig perfformiad gwyrdd a thri melyn.
- Dŵr Cymru oedd â'r nifer lleiaf o ddigwyddiadau carthffosiaeth Categori 3 (Isel) hyd yn hyn, ond mae gwaith i'w wneud o hyd oherwydd mae'n parhau i fod ar statws melyn.
- Gwnaeth hefyd gael tri digwyddiad llygredd difrifol yn 2018, felly syrthiodd y metrig hwn o wyrdd i felyn.
- Dŵr Cymru sydd wedi hunan-adrodd y ganran uchaf o ddigwyddiadau hyd yn hyn, ac mae wedi cyflawni statws gwyrdd am ddim ond yr ail waith ers 2011.
- Yn gyffredinol, mae nifer y digwyddiadau dŵr glân wedi cynyddu.
- Er bod cydymffurfiaeth ag amodau trwydded rhifyddol wedi gwella (o goch i felyn), mae pellter i fynd o hyd i gyflawni gwyrdd.
- Roedd y gwaith o gyflawni cynlluniau gwella'r Cynllun Rheoli Asedau ar statws gwyrdd, ar 99.3%.
- Sgôr mynegai diogelwch cyflenwad Dŵr Cymru oedd gwyrdd.

Byddwn yn edrych ar y data mewn mwy o fanylder ar y tudalennau dilynol.

---

<sup>1</sup> Gwybodaeth Tŷ'r Cwmnïau: DŴR CYMRU CYFYNGEDIG, rhif cwmni 02366777, cyfeiriad swyddfa gofrestrdig: Heol Pen-twyn, Nelson, Treharris, Morgannwg Ganol, CF46 6LY.

## 3. Methodoleg

### Y fethodoleg asesu perfformiad a ddefnyddiwyd gennym

Mae adroddiadau ar berfformiad y cwmni dŵr yn cael eu cynnal bob blwyddyn ar sail blwyddyn galendr.

Ers 2011, rydym wedi defnyddio'r un metrigau a dulliau Asesu Perfformiad Amgylcheddol ag Asiantaeth yr Amgylchedd. Mae hyn yn golygu y gallwn adrodd a meincnodi perfformiad Dŵr Cymru'n gyson yn erbyn cwmnïau dŵr a charthffosiaeth mawr eraill yng Nghymru a Lloegr.

Rydym yn cyfuno ein data perfformiad yng Nghymru â'r hyn y mae Asiantaeth yr Amgylchedd yn ei gyflwyno i ni ar gyfer yr ardal Dŵr Cymru a saif o fewn Lloegr. Mae'r adroddiad hwn felly yn adrodd ar berfformiad Dŵr Cymru yn ei gyfanrwydd.

Mae metrigau'r Asesiad Perfformiad Amgylcheddol yn mesur perfformiad sy'n gysylltiedig â'r canlynol:

- lleihau digwyddiadau llygredd a chynyddu nifer y digwyddiadau a adroddir gan y cwmni
- cydymffurfio â'r trwyddedau gollwng ar gyfer gweithfeydd trin carthion a dŵr
- cyflenwi cynlluniau gwella amgylcheddol
- cyflawni cyflenwadau diogel o ddŵr ('diogelwch cyflenwad')

Ni fyddwn yn adrodd ar berfformiad gweithgareddau gwaredu slwtsh Dŵr Cymru ar gyfer 2018. Rydym wedi gohirio adrodd ar y metrig slwtsh dros dro wrth inni adolygu sut rydym yn asesu ac yn adrodd ar berfformiad yn gyson ar draws cwmnïau dŵr ar y gweithgaredd hwn yn y dyfodol.

Mae'r Asesiad Perfformiad Amgylcheddol wedi'i osod dros gyfnod cynllun rheoli asedau cyfredol cwmnïau dŵr, sy'n rhedeg o fis Ebrill 2015 i fis Mawrth 2020. Mae'r metrigau'n absoliwt yn hytrach na'n gymharol. Felly, dylai pob cwmni sy'n cael ei fesur yn erbyn dangosyddion Asesiad Perfformiad Amgylcheddol allu cyflawni perfformiad da yn erbyn y rhain erbyn 2020 neu cyn hynny.

### Adrodd yn y dyfodol

Rydym yn gweithio gydag Asiantaeth yr Amgylchedd ar hyn o bryd i adolygu metrigau'r Asesiad Perfformiad Amgylcheddol ar gyfer 2020 ymlaen. Fel rhan o'r gwaith hwn, byddwch yn ceisio sicrhau bod y metrigau a ddatblygir yn gallu cael eu haddasu yng Nghymru er mwyn caniatáu i Dŵr Cymru gael ei feincnodi yn erbyn cwmnïau dŵr a charthffosiaeth eraill.

Bydd unrhyw newidiadau i'r ffordd y byddwn yn asesu Dŵr Cymru yn cael eu hadlewyrchu yn 2021, pan fyddwn yn adrodd ar berfformiad y cwmni ar gyfer 2020.

# 4. Crynodeb o Asesiad Perfformiad Amgylcheddol 2018

## Perfformiad cyffredinol yr Asesiad Perfformiad Amgylcheddol

Mae'r tabl ar y dudalen nesaf yn dangos sut y gwnaeth Dŵr Cymru berfformio yn erbyn chwech metrig yr Asesiad Perfformiad Amgylcheddol yn 2018. Mae gan bob metrig drothwyau cytunedig (sy'n newid bob pum mlynedd er mwyn gyrru gwelliannau parhaus), a ddefnyddir i raddio'r perfformiad yn ôl y lliwiau coch, melyn neu wyrdd.

Yn 2018, gwnaeth Dŵr Cymru wella ei sgôr seren gyffredinol i gwmni tair seren 'da'. Roedd hyn yn dda i'w weld ar ôl cwmp yn y perfformiad cyffredinol yn 2017, pan gafodd ei berfformiad sgôr dwy seren a lle nodwyd bod 'angen gwella'r' cwmni.

Y gobaith yw y bydd Dŵr Cymru yn sefydlogi ei berfformiad ar dair seren, gan anelu at wella'r perfformiad ym mhob un o'r metrigau. Dylai'r cwmni fod yn ymdrechu i gyflawni sgôr pedair seren.

Cyfeiriad yn yr adroddiad hwn	Metrig Aseiad Perfformiad Amgylcheddol		Beth mae'r metrig hwn yn ei olygu	Canlyniad 2018	Statws metrig yn 2018
Metrig 1 yr Aseiad Perfformiad Amgylcheddol	<b>Digwyddiadau llygredd (carthffosiaeth)</b>	Digwyddiadau Categori 1-3 fesul 10,000 km o garthffosydd	Faint o ddigwyddiadau llygredd carthffosiaeth a ddigwyddodd, a oedd ar Gategori 1-3, wedi'i normaleiddio yn ôl hyd y garthffos	28.0	Melyn
Metrig 2 yr Aseiad Perfformiad Amgylcheddol	<b>Digwyddiadau llygredd difrifol (carthffosiaeth)</b>	Digwyddiadau Categori 1-2 fesul 10,000km o garthffosydd	Faint o ddigwyddiadau llygredd carthffosiaeth difrifol a ddigwyddodd, a oedd ar Gategori 1-2, wedi'i normaleiddio yn ôl hyd y garthffos	0.83	Melyn
Metrig 3 yr Aseiad Perfformiad Amgylcheddol	<b>Cydymffurfio â'r drwydded ollwng (gweithfeydd trin carthion a gweithfeydd trin dŵr)</b>	%	Canran y gydymffurfiaeth ymhlith gweithfeydd trin carthion a gweithfeydd trin dŵr â therfynau ansawdd dŵr ar eu gollyngiadau	98.0	Melyn
Metrig 4 yr Aseiad Perfformiad Amgylcheddol	<b>Hunan-adrodd am ddigwyddiadau llygredd</b>	%	Canran y digwyddiadau llygredd y gwnaeth y cwmni hunan-adrodd	75	Gwyrdd
Metrig 5 yr Aseiad Perfformiad Amgylcheddol	<b>Cyflawni Cynllun Rheoli Asedau'r Rhaglen Amgylchedd Genedlaethol</b>	% y cyflawniadau arfaethedig	A yw Cynllun Rheoli Asedau'r Rhaglen Amgylchedd Genedlaethol yn cael ei gyflawni fel y bwriadwyd neu beidio	99.3	Gwyrdd
Metrig 6 yr Aseiad Perfformiad Amgylcheddol	<b>Mynegai diogelwch cyflenwad</b>		Pa mor dda fyddai wedi cyflawni ei ddarpariaeth ar lefelau gwasanaeth ar gyfer cyfyngiadau ar y cyflenwad dŵr pe bai 2018 wedi bod yn sych	100	Gwyrdd
<b>Sgôr seren y cwmni:</b>				<b>***</b>	

#### Allwedd:Sgôr seren y cwmni

****	Cwmni sy'n arwain y diwydiant
***	Cwmni da
**	Cwmni sydd angen ei wella
*	Cwmni sy'n perfformio'n wael

#### Allwedd:Statws perfformiad

	Perfformiad yn well na'r targed
	Perfformiad yn agos at, neu ychydig yn is, na'r targed
	Perfformiad ymhell o dan y targed

## Crynodeb o berfformiad Asesiad Perfformiad Amgylcheddol Dŵr Cymru 2011–18

Mae'r tabl isod yn dangos sut mae'r cwmni wedi perfformio yn erbyn y metrigau ers 2011:

	Asesiad Perfformiad Amgylcheddol gwreiddiol					Asesiad Perfformiad Amgylcheddol diwygiedig			
	2011	2012	2013	2014	2015	2015E <sup>2</sup>	2016	2017	2018
<b>Digwyddiadau llygredd (carthffosiaeth)</b> Digwyddiadau Categori 1-3 fesul 10,000 km o garthffosydd	132	110	66	59	59	30.4	29.8	28.2	28.0
<b>Digwyddiadau llygredd difrifol (carthffosiaeth)</b> Digwyddiadau Categori 1-2 fesul 10,000 km o garthffosydd	2.2	3.3	1.1	2.2	1	0.6	0.6	0.28	0.83
<b>Cydymffurfio â'r drwydded ollwng (gweithfeydd trin carthion a gweithfeydd trin dŵr) %</b>	95.6	98.6	97.7	97.8	98.6	97.1	99.0	96.7	98.0
<b>Defnyddio/gwaredu slwtsh yn foddhaol %</b>	100	100	100	100	100	100	100	100	Amh. <sup>3</sup>
<b>Hunan-adrodd digwyddiadau llygredd %</b>	37	47	48	60	74	74	68	63	75
<b>Cyflawni Cynllun Rheoli Asedau'r Rhaglen Amgylchedd Genedlaethol % y cyflawniadau arfaethedig</b>	87	116	100	100	100	100	100	100	99.3
<b>Mynegai diogelwch cyflenwad</b>	Amh	Amh	Amh	Amh	Amh	100	100	98	100
<b>Sgôr seren y cwmni</b>	*	***	***	***	***	***	***	**	***

### Allwedd:Sgôr seren y cwmni

****	Cwmni sy'n arwain y diwydiant
***	Cwmni da
**	Cwmni sydd angen ei wella
*	Cwmni sy'n perfformio'n wael

### Allwedd:Statws perfformiad

	Perfformiad yn well na'r targed
	Perfformiad yn agos at, neu ychydig yn is, na'r targed
	Perfformiad ymhell o dan y targed

<sup>2</sup> Mae'r golofn o dan y pennawd 2015E yn cyfeirio at set ddata 2015 sydd wedi'i hasesu gan ddefnyddio'r meini prawf newydd ar gyfer Asesiadau Perfformiad Amgylcheddol (2016–2020). Mae hon wedi'i chynnwys at ddibenion cymharu yn unig. Mae'r trothwyau Coch/Melyn/Gwyrdd yn cael eu hadolygu bob pum mlynedd.

<sup>3</sup> Ni fyddwn yn adrodd ar berfformiad gweithgareddau gwaredu slwtsh Dŵr Cymru ar gyfer 2018. Rydym wedi gohirio adrodd ar y metrig slwtsh dros dro wrth inni adolygu sut rydym yn asesu ac yn adrodd ar berfformiad yn gyson ar draws cwmnïau dŵr ar y gweithgaredd hwn yn y dyfodol.

## 5. Digwyddiadau llygredd


Rydym ni, y rheoleiddiwr, yn ymateb i amrywiaeth eang o ddigwyddiadau llygredd, a daw rhai o'r rhain o asedau a rhwydweithiau cwmnïau dŵr. Rydym yn adrodd ar faint o ddigwyddiadau y mae pob cwmni dŵr yn gyfrifol amdanynt. Diben hyn yw hybu gostyngiad parhaus yn nifer y digwyddiadau llygredd, gyda'r nod o leihau digwyddiadau i sero.

### Metrig 1 yr Aseiad Perfformiad Amgylcheddol: Digwyddiadau llygredd (carthffosiaeth)

Dŵr Cymru oedd â'r nifer lleiaf o ddigwyddiadau llygredd carthffosiaeth Categori 1-3 hyd yn hyn yn 2018 (101). Roedd 98 o ddigwyddiadau Categori 3 (effaith isel), dau yng Nghategori 2 (Uchel – arwyddocaol) ac un yng Nghategori 1 (Uchel – mawr). Gweler y graff isod.

Mae'r Aseiad Perfformiad Amgylcheddol yn normaleiddio nifer y digwyddiadau yn ôl hyd y garthffos, felly yn 2018 aseswyd y cwmni ar liw melyn ar gyfer y metrig hwn:

Cyfeiriad yn yr adroddiad hwn	Metrig Aseiad Perfformiad Amgylcheddol		Beth mae'r metrig hwn yn ei olygu	Canlyniad 2018	Statws metrig yn 2018
Metrig 1 yr Aseiad Perfformiad Amgylcheddol	<b>Digwyddiadau llygredd (carthffosiaeth)</b>	Digwyddiadau Categori 1-3 fesul 10,000 km o garthffosydd	Faint o ddigwyddiadau llygredd carthffosiaeth a ddigwyddodd, a oedd ar Gategori 1-3, wedi'i normaleiddio yn ôl hyd y garthffos	28.0	Melyn





Fel y dengys y graff uchod, gwelwyd gostyngiad cyson o un flwyddyn i'r llall yn nifer y digwyddiadau llygredd rhwng 2009 a 2014. Fodd bynnag, dim ond ychydig iawn o ostyngiad sydd wedi'i weld ers 2014, o 108 o ddigwyddiadau'n gyffredinol i 101 yn 2018. Rydym yn pryderu ynghylch y gostyngiad araf mewn digwyddiadau carthffosiaeth dros y pum mlynedd ddiwethaf, ac yn parhau i herio'r cwmni ar ei lefel o uchelgais tuag at leihau nifer y digwyddiadau i sero yn yr hirdymor.

### Metrig 2 yr Aseiad Perfformiad Amgylcheddol: Digwyddiadau llygredd difrifol (carthffosiaeth)

Mae'r ail fetrig yn canolbwyntio ar nifer y digwyddiadau llygredd difrifol. Fel y dangosir yn y graff uchod, roedd tri digwyddiad carthffosiaeth Categori 1 a 2 yn 2018 (0.83 ar ôl eu normaleiddio), felly mae'r metrig hwn hefyd yn felyn:


Cyfeiriad yn yr adroddiad hwn	Metrig Aseiad Perfformiad Amgylcheddol		Beth mae'r metrig hwn yn ei olygu	Canlyniad 2018	Statws metrig yn 2018
Metrig 2 yr Aseiad Perfformiad Amgylcheddol	<b>Digwyddiadau llygredd difrifol (carthffosiaeth)</b>	Digwyddiadau Categori 1-2 fesul 10,000 km o garthffosydd	Faint o ddigwyddiadau llygredd carthffosiaeth difrifol a ddigwyddodd, a oedd ar Gategori 1-2, wedi'i normaleiddio yn ôl hyd y garthffos	0.83	Melyn

Mae'r perfformiad yn y metrig hwn wedi bod yr un peth ers 2013, gan symud rhwng pedwar a dau ddigwyddiad llygredd difrifol. Fel uchod, byddem yn disgwyl i Dŵr Cymru ganolbwyntio ar leihau nifer y digwyddiadau llygredd yn gyffredinol, a lleihau digwyddiadau llygredd difrifol i sero cyn gynted â phosibl.

Er nad yw'n rhan o fetrig Aseiad Perfformiad Amgylcheddol, rydym hefyd yn monitro nifer y digwyddiadau dŵr glân. Mae'r rhain yn ymwneud â gwasanaethau cyflenwi dŵr, gan gynnwys gweithfeydd trin dŵr a systemau dosbarthu dŵr (prif gyflenwad dŵr y gellir ei yfed).

Fel y dengys y graff isod, gwelwyd cynnydd yn nifer y digwyddiadau sy'n ymwneud â dŵr glân, gyda'r ffigur yn dyblu o 12 yn 2017 i 22 yn 2018. Byddem yn disgwyl i Dŵr Cymru ymchwilio'n drwyadl i'r rhesymau dros y cynnydd diweddar hwn a rhoi cynllun gwella ar waith. Rydym yn disgwyl i'r cwmni leihau nifer yr holl ddigwyddiadau (dŵr glân a charthffosiaeth) i sero yn yr hirdymor.

### Nifer y digwyddiadau dŵr glân fesul blwyddyn



	2009	2010	2011	2012	2013	2014	2015	2016	2017	2018
■ High - major (Cat 1)	0	0	0	0	0	0	0	1	1	0
■ High - Significant (Cat 2)	0	0	1	0	0	0	0	0	0	2
■ Low (Cat 3)	14	10	6	6	2	4	0	6	11	20

## 6. Cydymffurfio â'r drwydded gollwng dŵr

Mae Cyfoeth Naturiol Cymru ac Asiantaeth yr Amgylchedd yn cyflwyno trwyddedau ar gyfer gollyngiadau dŵr, sy'n cynnwys gollyngiadau wedi'u trin o weithfeydd trin carthion a gweithfeydd trin dŵr cwmnïau dŵr. Mae'r trwyddedau yn gofyn i'r gollyngiadau fodloni meini prawf penodol er mwyn sicrhau nad yw'r amgylchedd dŵr yn dirywio. Mae cwmnïau dŵr yn hunan-fonitro eu gollyngiadau ac yn darparu data ar ein cyfer yr ydym yn ei asesu am gydymffurfiaeth. Rydym yn disgwyl cydymffurfiaeth â holl amodau'r drwydded.


### Metrig 3 yr Asesiad Perfformiad Amgylcheddol: Cydymffurfio â'r drwydded ollwng (gweithfeydd trin carthion a gweithfeydd trin dŵr)

Yn 2018, roedd Dŵr Cymru yn cydymffurfio'n gyffredinol â'r terfynau ansawdd dŵr ar ei drwyddedau rhifyddol ar gyfer gweithfeydd trin carthion a gweithfeydd trin dŵr 98% o'r amser. Gwelwyd diffyg cydymffurfio mewn dau o'r 559 o weithfeydd trin carthion ac mewn deg o'r 47 o weithfeydd trin dŵr a weithredir gan Dŵr Cymru.

Cyfeiriad yn yr adroddiad hwn	Metrig Asesiad Perfformiad Amgylcheddol	Beth mae'r metrig hwn yn ei olygu	Canlyniad 2018	Statws metrig yn 2018
Metrig 3 yr Asesiad Perfformiad Amgylcheddol	<b>Cydymffurfio â'r drwydded ollwng (gweithfeydd trin carthion a gweithfeydd trin dŵr)</b>	% Canran y gydymffurfiaeth ymhlith gweithfeydd trin carthion a gweithfeydd trin dŵr â therfynau ansawdd dŵr ar eu gollyngiadau	98.0	Melyn

Mae'r ffaith fod y cwmni wedi cydymffurfio 98% o'r amser yn golygu bod metrig yr Asesiad Perfformiad Amgylcheddol wedi gwella o goch y llynedd i felyn, sy'n dda ei weld. Fel y dengys y graff isod, mae lefel y gydymffurfiaeth mewn gweithfeydd trin carthion yn uwch na'r un flwyddyn a welwyd ers 2014, ond nid yw'r tueddiad yn sefydlog.

**Nifer y gweithfeydd trin carthion a gweithfeydd trin dŵr nad ydynt yn cydymffurfio a % y gydymffurfiaeth gyffredinol ar safleoedd rhifyddol**



O ran gweithfeydd trin carthion, rydym yn disgwyl i Dŵr Cymru adeiladu ar ei gydymffurfiaeth uchel yn 2018 a sicrhau bod ei weithfeydd trin carthion yn cydymffurfio 100% â'u terfynau rhifyddol yn y dyfodol. Er nad yw Dŵr Cymru wedi cyflawni 100% ar unrhyw adeg, mae cwmnïau eraill yn y sector wedi cyflawni'r targed hwn.

Rydym yn ymwybodol fod Dŵr Cymru wedi rhoi nifer o ffyrdd newydd o weithio ar waith er mwyn bod yn fwy rhagweithiol wrth nodi gweithfeydd trin carthion lle y gallai ansawdd y gollyngiadau fod yn syrthio. Deallwn fod y gwaith hwn wedi arwain at nifer llai o weithfeydd trin carthion sy'n methu, o ddeg yn 2017 i ddau yn 2018.

Rydym yn siomedig fod cydymffurfiaeth gweithfeydd trin dŵr yn wael a bod nifer uchel o safleoedd nad ydynt yn cydymffurfio (naw neu ddeg) bob blwyddyn ers 2014, ar wahân i ffigur isel o dri yn 2016. Deallwn fod y cwmni'n bwriadu mabwysiadu prosesau tebyg i'r rhai hynny a ddefnyddir mewn gweithfeydd dŵr gwastraff er mwyn helpu i wella'r gydymffurfiaeth. Felly, rydym yn disgwyl gweld canlyniadau cadarnhaol ar gyfer cydymffurfiaeth gweithfeydd trin dŵr yn 2019, fel yr ydym wedi'u gweld gyda chydymffurfiaeth gweithfeydd carthion yn 2018.

Rydym yn disgwyl i Dŵr Cymru barhau i chwilio am gyfleoedd i fonitro a mynd ati'n rhagweithiol i nodi gweithfeydd trin carthion a gweithfeydd trin dŵr lle gallai eu perfformiad fod yn syrthio, gyda'r nod o gyflawni 100% (gwyrdd) o gydymffurfiaeth â'r metrig hwn cyn gynted â phosibl.

## Cydymffurfio ag amodau trwydded disgrifiadol gollyngiadau dŵr

Cafodd 105 o asesiadau cydymffurfiaeth eu cynnal ar safleoedd â thrwyddedau gollwng dŵr, a nodwyd diffyg cydymffurfio ymhlith 66 o'r rhain (63%).

Mae amodau disgrifiadol yn ymwneud ag agweddau di-rif megis cynnal, rheoli ac adrodd. Roedd y mwyafrif o'r achosion hyn o ddiffyg cydymffurfio yn rhai Categori CCS3 neu CCS4<sup>4</sup>, ond roedd un achos o ddiffyg cydymffurfio ar CCS1 a phedwar ar CCS2. Rydym yn disgwyl gweld gwelliant yn y lefel hon o ddiffyg cydymffurfio er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth lawn yn y dyfodol.

## Llif

Adroddwyd bod 15 o weithfeydd trin carthion wedi mynd dros ofynion Llif Tywydd Sych eu trwyddedau yn 2017<sup>5</sup>, a gwnaeth hyn beri i'r safleoedd dderbyn mwy o garthion nag y caniatawyd. Aeth y cwmni ati i ymchwilio yn brydlon, a llwyddodd i ddatrys saith o'r achosion hyn o fynd dros y gofynion. Mae ymchwiliadau'n parhau i'r gweddill.

Cafodd deg gwaith trin carthion pellach broblemau data yn 2017 y mae'r cwmni'n ymdrechu i'w datrys.

Mae ymchwiliad ar y gweill i dri gwaith arall oherwydd cwestiynau dros derfynau llif trin llawn eu trwyddedau, sy'n golygu na allent fod yn trin y llif sy'n ofynnol gan eu trwyddedau. Mae un arall wedi'i ymchwilio eisoes, ac mae hwn eisoes wedi'i ddychwelyd i lefelau cydymffurfio.

Mae'r cwmni wedi gwneud cynnydd sylweddol o ran ei system rheoli mewnol ar gyfer ardystio MCERTS, sef system sy'n archwilio ac yn ardystio addasrwydd a chywirdeb ei gyfarpar monitro llif yn annibynnol, ac mae ymchwiliad ar waith ar hyn o bryd i un safle am iddo fethu'r broses ailardystio.

---

<sup>4</sup> Categoriâu CCS (Cynllun Dosbarthu Cydymffurfiaeth) yw'r ffordd rydym yn categoreiddio achosion o ddiffyg cydymffurfio. Maent ar raddfa o rhwng 1 a 4, gydag 1 yn fwyaf tebygol o gael effaith ddifrifol ar yr amgylchedd a 4 yn debygol o gael ychydig o effaith, os o gwbl. Mae Categori 3 CCS yn debygol o gael effaith fechan ar yr amgylchedd.

<sup>5</sup> Rydym yn asesu ac yn adrodd ar ddata sy'n ymwneud â Llif Tywydd Sych a Llif Trin Llawn dwy flynedd ar ei hôl hi, felly rydym yn adrodd gwybodaeth 2017 yn yr adran hon.

## 7. Digwyddiadau hunan-adrodd

Hoffem weld cwmnïau dŵr yn hunan-adrodd<sup>6</sup> o leiaf 80% o'u digwyddiadau llygredd.

Bydd hyn yn golygu y gallwn fod yn fwy hyderus fod y cwmni dŵr yn:


- deall ei asedau a'i rwydweithiau'n well
- edrych yn barhaus am ffyrdd o wella sut mae'n rhagweld digwyddiadau llygredd, gan gynnwys defnyddio'i ddata telemetreg ei hun i wella'r lefelau hunan-adrodd
- defnyddio ei ddata i nodi manau peryglus a thargeddu lleoliadau risg uchel a mathau penodol o asedau
- rhoi sylw ac ymateb i ddigwyddiadau'n gyflym er mwyn stopio unrhyw effaith cyn gynted â phosibl

### Metrig 4 yr Aseiad Perfformiad Amgylcheddol: Hunan-adrodd am ddigwyddiadau llygredd

Rydym yn falch o adrodd fod Dŵr Cymru wedi hunan-adrodd 75% o'i ddigwyddiadau yn 2018 (digwyddiadau dŵr gwastraff a dŵr glân Categori 1-3).

Cyfeiriad yn yr adroddiad hwn	Metrig Aseiad Perfformiad Amgylcheddol	Beth mae'r metrig hwn yn ei olygu	Canlyniad 2018	Statws metrig yn 2018	
Metrig 4 yr Aseiad Perfformiad Amgylcheddol	Hunan-adrodd am ddigwyddiadau llygredd	%	Canran y digwyddiadau llygredd y gwnaeth y cwmni hunan-adrodd	75	Gwyrdd

Fel y dengys y graff isod, roedd perfformiad y cwmni yn y metrig hwn wedi bod yn dirywio yn ystod y blynyddoedd diwethaf. Gobeithir y bydd y cwmni'n parhau i wella ei gyfradd hunan-adrodd er mwyn cadw'r statws gwyrdd.



<sup>6</sup> I adrodd digwyddiad i ni, ffoniwch ein Llinell Gymorth Digwyddiadau ar 03000 65 3000.

## 8. Adnoddau dŵr

### Cydymffurfio â'r drwydded adnoddau dŵr

Gyda'r cyfnod hir o dywydd sych a brofodd Cymru yn ystod haf 2018, gwnaeth ein gwaith rheoliadol ganolbwyntio ar gydymffurfiaeth â'r drwydded adnoddau dŵr yn 2018. Yng Nghymru, gwnaethom gynnal 16 o archwiliadau trwydded ar 15 o safleoedd. Canfuom doriadau yn amodau'r drwydded mewn naw o'r 16 o archwiliadau. Roedd pob un o'r tor- amodau naill ai'n Gategori CCS3 neu CCS4,<sup>1</sup> ac er mai'r rhain yw'r categorïau isaf o ran risg amgylcheddol, rydym yn disgwyl gweld gwelliant o hyd er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth lawn yn y dyfodol. Cyflwynwyd rhybuddion i dri o'r safleoedd nad oeddent yn cydymffurfio; roedd angen i bob un o'r naw safle nad oeddent yn cydymffurfio gymryd camau gweithredu.

### Metrig 6 yr Asesiad Perfformiad Amgylcheddol: Mynegai diogelwch cyflenwad

Mae'r metrig mynegai diogelwch cyflenwad yn mesur i ba raddau gall y cwmni sicrhau darpariaeth ei lefelau gwasanaeth ar gyfer cyfyngiadau yn y cyflenwad dŵr (e.e. gwaharddiadau defnyddio dros dro) os oedd y flwyddyn flaenorol wedi bod yn un sych. Sgôr y mynegai diogelwch cyflenwad ar gyfer 2018 yw 100, felly mae metrig yr Asesiad Perfformiad Amgylcheddol yn wyrdd.

Cyfeiriad yn yr adroddiad hwn	Metrig Asesiad Perfformiad Amgylcheddol	Beth mae'r metrig hwn yn ei olygu	Canlyniad 2018	Statws metrig yn 2018
Metrig 6 yr Asesiad Perfformiad Amgylcheddol	<b>Mynegai diogelwch cyflenwad</b>	Pa mor dda fyddai wedi cyflawni ei ddarpariaeth ar lefelau gwasanaeth ar gyfer cyfyngiadau ar y cyflenwad dŵr pe bai 2018 wedi bod yn sych	100	Gwyrdd

Cafodd Dŵr Cymru liw melyn ar gyfer y mynegai diogelwch cyflenwad yn 2017/18, yn bennaf oherwydd effaith y digwyddiad rhewi-dadmer ar ollyngiadau (noder: cyflawnwyd targed gollyngiadau'r cwmni). Disgwyliwyd y byddai'n sgorio 100 yn 2018/19 drwy reoli'r gollyngiadau ar lefel parth adnoddau ac y byddai Dŵr Cymru yn cludo dŵr i gwsmeriaid yn Nhywyn (Aberdyfi) mewn tancer pe bai problem cyflenwi cyn y byddai'r cynllun cyflenwi newydd ar gyfer y parth hwnnw'n cael ei roi ar waith, oherwydd byddai dim ond yn effeithio ar nifer bychan o gwsmeriaid. Yn ogystal, cymerodd Dŵr Cymru gamau rheoli gollyngiadau pellach yn 2018/19 i leihau'r galw yn y parth hwn.

### Cynlluniau sychder a chynlluniau rheoli adnoddau dŵr

Mae gan gwmnïau dŵr ddyletswydd i gynnal cyflenwadau dŵr yn eu hardal, heb niweidio'r amgylchedd nac effeithio ar anghenion defnyddwyr dŵr eraill. Mae gofyniad statudol ar gwmnïau dŵr i baratoi, cynnal a chyhoeddi cynlluniau rheoli adnoddau dŵr a sychder. Caiff y rhain eu cyhoeddi bob pum mlynedd.

I gael yr wybodaeth ddiweddaraf am gynlluniau rheoli adnoddau dŵr Dŵr Cymru, edrychwch ar ei wefan: [www.dwrcymru.com](http://www.dwrcymru.com)

Edrychwch hefyd ar ein tudalennau gwe ni am ragor o wybodaeth ar y pynciau hyn:

- Cynllunio rheoli adnoddau dŵr: [naturalresources.wales/about-us/what-we-do/water/water-resource-management-planning](https://naturalresources.wales/about-us/what-we-do/water/water-resource-management-planning)
- Sychder: [naturalresources.wales/guidance-and-advice/environmental-topics/water-management-and-quality/drought](https://naturalresources.wales/guidance-and-advice/environmental-topics/water-management-and-quality/drought)
- <https://cdn.naturalresources.wales/media/684414/final-wc-drought-plan-guidance-2017.pdf?mode=pad&rnd=131656713580000000>

### **Gollyngiadau a defnydd o ddŵr**

Mae'r cwmni wedi adrodd yn ei adolygiad blynyddol ar gyfer 2017–18 mai'r defnydd cyffredinol y pen, sef faint o ddŵr y mae pob unigolyn yn ei ddefnyddio, oedd 151 litr fesul pen pob diwrnod. Cyfanswm y gollyngiadau oedd 173 megalitr y diwrnod ar gyfer 2017–18.

Rydym yn gweithio gydag Ofwat i gyhoeddi amrywiaeth eang o ddata cwmnïau dŵr, sy'n cynnwys cyfraddau gollyngiadau a defnydd o ddŵr, a bydd y data hyn ar gael yn [discoverwater.co.uk](https://discoverwater.co.uk).



## 9. Gwaith rheoliadol arall

### Metrig 5 yr Aseiad Perfformiad Amgylcheddol: Cyflawni Cynllun Rheoli Asedau'r Rhaglen Amgylchedd Genedlaethol

Mae Dŵr Cymru wedi cwblhau'r rhan fwyaf (150/151) o'r allbynnau disgwylidig ar gyfer blwyddyn pedwar y nodwyd yn ei Gynllun Rheoli Asedau 6 ar gyfer y Rhaglen Amgylchedd Genedlaethol. Fodd bynnag, ni chafodd un ymchwiliad Cyfarwyddeb Fframwaith Dŵr ei gyflawni o fewn y cwmpas. Golyga hyn ei fod yn cydymffurfio 99.34% o'r amser, ond yn dal i fod yn statws gwyrdd â metrig 5 (yr Aseiad Perfformiad Amgylcheddol):

Cyfeiriad yn yr adroddiad hwn	Metrig Aseiad Perfformiad Amgylcheddol	Beth mae'r metrig hwn yn ei olygu	Canlyniad 2018	Statws metrig yn 2018	
Metrig 5 yr Aseiad Perfformiad Amgylcheddol	<b>Cyflawni Cynllun Rheoli Asedau'r Rhaglen Amgylchedd Genedlaethol</b>	% y cyflawniadau arfaethedig	A yw Cynllun Rheoli Asedau'r Rhaglen Amgylchedd Genedlaethol yn cael ei gyflawni fel y bwriadwyd neu beidio	99.3	Gwyrdd

Bydd y gwelliannau y cyflawnwyd gan y rhaglen yn golygu bod asedau'n cyflawni safonau uwch ac yn cyflenwi gwelliannau ansawdd dŵr.

Disgwylwn i Dŵr Cymru wella perfformiad yn 2019 i gyflawni 100% a chynnal statws gwyrdd ar gyfer y metrig hwn.

#### Gorfodi

Yn 2018, gwnaethom dderbyn dau ymgymeriad gorfodi gan Dŵr Cymru am droseddau o dan Ddeddf Pysgodfeydd Eogiaid a Dŵr Croyw 1975. Gwnaeth y cwmni gyflawni'r troseddau, a achosodd ddau ddigwyddiad llygredd ym mis Ionawr a mis Tachwedd 2016. Cynigiodd y cwmni gyfanswm o £90,000 mewn iawndal, a fydd yn cael ei wario yn y dalgylch a effeithiwyd gan y digwyddiadau llygredd.

Gwnaeth Dŵr Cymru hefyd dderbyn dau rybudd ffurfiol yn 2018 am dorri amodau trwydded mewn dau o'i orsafoedd pwmpio. Gwnaeth y tor-amodau ddigwydd yn 2016 a 2017, a chafodd y rhain eu hystyried yn droseddau o dan Reoliadau Trwyddedu Amgylcheddol 2010.

#### Cronfeydd dŵr

Mae Dŵr Cymru yn rheoli 129 o gyforgronfeydd dŵr mawr sy'n fwy na 10,000m<sup>3</sup> ac rydym yn rheoleiddio'r rhain o dan Ddeddf Cronfeydd Dŵr 1975. Diben y gyfraith hon yw atal dŵr rhag gollwng allan o reolaeth ac arwain at lifogydd mewn cymunedau i lawr yr afon. Rhaid i bob cyforgronfa ddŵr gael archwiliadau statudol cyfnodol a gweithredu'r argymhellion a wneir gan beiriannydd archwilio annibynnol. Rhaid i'r cronfeydd dŵr hyn hefyd gael eu goruchwyllo gan beiriannydd sifil cymwys ar bob adeg, a rhaid cadw cofnodion o'r brif wybodaeth a gweithgareddau monitro. Rydym yn cwrdd â thîm diogelwch argaeau Dŵr Cymru yn rheolaidd i adolygu'r cynnydd ar gwblhau mesurau diogelwch ac i ddarparu

tystiolaeth. Mae'r lefelau cydymffurfio yn uchel ar y cyfan. Pan fydd oediadau wedi bod o ran cwblhau gwaith diogelwch, mae'r rhain wedi'u cyfiawnhau ac rydym wedi cael gwybod amdanynt cyn gynted â phosibl, ynghyd â derbyn nodiadau cynghori gan beirianwyr cronfeydd dŵr annibynnol. Mae Dŵr Cymru wedi nodi ei fod yn dymuno bod yn "sefydliad enghreifftiol ar gyfer diogelwch cronfeydd dŵr".

Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, deallwn fod Dŵr Cymru wedi penodi ymgynghorydd i ddarparu mapiau llifogydd ar gyfer pob un o'i gronfeydd dŵr cofrestredig sy'n dangos y canlyniadau posibl os bydd argae yn torri. Byddwn yn cael copi o'r mapiau hyn er mwyn cwblhau ymarferiad dynodi risg, pennu lefel y rheoliad sydd ei hangen, a llywio ein cynlluniau ymateb brys gyda phartneriaid proffesiynol.

### Rheoli perygl llifogydd

O dan Ddeddf Rheoli Llifogydd a Dŵr 2010, caiff cwmnïau dŵr a charthffosiaeth eu diffinio fel awdurdodau rheoli risg. Rhaid iddynt ymddwyn mewn modd sy'n gyson â'r strategaeth genedlaethol ar gyfer rheoli perygl llifogydd ac erydu arfordirol yng Nghymru, ac mae dyletswydd arnynt i gydweithredu ag awdurdodau rheoli risg eraill yng Nghymru.

Bob ychydig o flynyddoedd, rydym yn llunio adroddiad i Weinidogion Cymru ar sut caiff perygl llifogydd ac erydu arfordirol ei reoli ledled Cymru ac ar y gweithgareddau sydd ar waith i godi ymwybyddiaeth o'r rhai hynny sydd mewn perygl a chynyddu eu cydnherthed. Rydym yn gwneud hyn ar ran yr holl awdurdodau rheoli risg sy'n gweithredu yng Nghymru, felly byddwn yn cynnwys Dŵr Cymru. Mae gwaith ar droed ar adroddiad 2017–18 – cyfeiriwch at ein tudalen we, [Perygl llifogydd ac erydu arfordirol yng Nghymru](#), yn ddiweddarach yn 2019 pan fydd yn cael ei chyhoeddi.

## 10. Disgwyliadau perfformiad ar gyfer 2019

Byddem yn disgwyl i Dŵr Cymru wneud y canlynol:

- Sicrhau bod y gydymffurfiaeth yn gwella i 100% ar gyfer yr holl drefniadau trwyddedu a rheoleiddio Parhau i wella'r gydymffurfiaeth â therfynau rhifyddol a ganiateir, gan ganolbwyntio ar gydymffurfiaeth gweithfeydd trin dŵr a chydymffurfiaeth amodau disgrifiadol
- Parhau i wella'r gwaith o hunan-adrodd digwyddiadau llygredd a chadw statws gwyrdd
- Parhau i leihau nifer y digwyddiadau llygredd, gan anelu at sero o ddigwyddiadau, a chanolbwyntio ar ddigwyddiadau llygredd difrifol a digwyddiadau dŵr glân
- Gwella'r gwaith o gyflawni cynlluniau gwella'r Cynllun Rheoli Asedau er mwyn cyflawni 100%
- Cynnal sgôr y mynegai diogelwch cyflenwad er mwyn cyflawni 100.



**Cyfoeth  
Naturiol**  
Cymru  
**Natural  
Resources**  
Wales

Cyhoeddwyd gan:  
Cyfoeth Naturiol Cymru  
Tŷ Cambria  
29 Heol Casnewydd  
Caerdydd  
CF24 0TP

0300 065 3000 (Llun – Gwener, 8am – 6pm)

[ymholiadau@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk](mailto:ymholiadau@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk)  
[www.cyfoethnaturiol.cymru](http://www.cyfoethnaturiol.cymru)

© Cyfoeth Naturiol Cymru

Cedwir pob hawl. Gall y ddogfen hon gael ei hatgynhyrchu â chaniatâd ymlaen llaw gan  
Cyfoeth Naturiol Cymru